***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2112 (Cy.170)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Coleg y Drindod, Caerfyrddin (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Uwch) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *23 Gorffennaf 2007* |
| *Wedi'i osod gerbron Cynulliad Cenedlaeshol - -* | *24 Gorffennaf 2007* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 129(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Coleg y Drindod, Caerfyrddin (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Uwch) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Medi 2007.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Dynodiad

**2.** Dynodir Coleg y Drindod, Caerfyrddin, ac yntau'n sefydliad addysg o'r math a ddisgrifir yn is-adran (2) o adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, yn sefydliad at ddiben yr adran honno.

*Jane E. Hutt*
Y Gweinidog dros Addysg, Plant a Phobl Ifanc,
un o Weinidogion Cymru

23 Gorffennaf 2007

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (OS 1999/672) a pharagraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dynodir Coleg y Drindod, Caerfyrddin gan y Gorchymyn hwn at ddibenion adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988. Mae hyn yn golygu ei fod yn gymwys i dderbyn cymorth o gyllid a weinyddir gan gyngor cyllido addysg uwch a'i fod i'w drin fel sefydliad o fewn y sector addysg uwch at ddibenion y Deddfau Addysg.